ATODLEN 7

DARPARIAETHAU TROSIANNOL AC ARBEDION

# RHAN 2

## Cyfarwyddiadau

### Cyfarwyddiadau cyffredinol

**5.**—(1) Mae cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 3(1) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**1**) neu adran 131(4) o Ddeddf 1990 cyn y dyddiad trosglwyddo i'w drin ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny fel cyfarwyddyd a roddir i'r Corff o dan erthygl 11(1) o'r Gorchymyn Sefydlu.

(2) Mae cyfarwyddyd a roddwyd at ddibenion adran 1(4) o Ddeddf Coedwigaeth 1967(**2**) cyn y dyddiad trosglwyddo, i'w drin, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â swyddogaeth a ddaw'n arferadwy gan y Corff yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn, ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny, fel cyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff o dan erthygl 11(1) o'r Gorchymyn Sefydlu.

(3) Mae cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 40(1) o Ddeddf 1995 cyn y dyddiad trosglwyddo, i'w drin, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â swyddogaeth drosglwyddedig, ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny, fel cyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff o dan erthygl 11(1) o'r Gorchymyn Sefydlu.

(4) Mae cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 40(2) o Ddeddf 1995 cyn y dyddiad trosglwyddo, i'w drin, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru, ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny fel cyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff o dan erthygl 11(3) o'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i hamnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon mewn perthynas â chyfarwyddiadau penodol.

### Cyfarwyddyd Dosbarthu Dŵr Wyneb a Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2009

**6.**—(1) Mae Cyfarwyddyd Dosbarthu Dŵr Wyneb a Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2009 i'w drin ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny fel cyfarwyddyd a roddir i'r asiantaeth briodol—

(a) o dan erthygl 11(3) o'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i hamnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd yn gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) o dan adran 40(2) o Ddeddf 1995 i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd yn gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Asiantaeth yr Amgylchedd;

(c) o dan erthygl 11(3) o'r Gorchymyn Sefydlu(**3**) (fel y'i hamnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) ac o dan adran 40(2) o Ddeddf 1995 i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd yn gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu ar y cyd.

(**1**) 1949 p. 97.
(**2**) 1967 p. 10.
(**3**) O.S. 2003/3242 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2035, O.S. 2007/3538, O.S. 2008/1097 (yn rhannol o 14/05/08, yn llwyr o 24/03/15), O.S. 2010/630 (C. 42), O.S. 2011/556 (C. 19).

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "asiantaeth briodol" yr un ystyr ag "appropriate agency" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 fel y'u diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

**Cyfarwyddiadau Teipoleg, Safonau a gwerthoedd trothwy Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2010**

**7.**—(1) Mae Cyfarwyddiadau Teipoleg, Safonau a gwerthoedd trothwy Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2010 i gael eu trin, ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny, fel cyfarwyddiadau a roddir i'r asiantaeth briodol—

(a) o dan erthyglau 11(3) ac 11A(3) o'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i hamnewidiwyd gan Gorchymyn hwn) i'r graddau y mae'r cyfarwyddiadau'n gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) o dan adrannau 40(2) a 122(2) o Ddeddf 1995 i'r graddau y mae'r cyfarwyddiadau'n gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Asiantaeth yr Amgylchedd; ac

(c) o dan erthyglau 11(3) ac 11A(3) o'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i amnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) ac o dan adrannau 40(2) a 122(2) o Ddeddf 1995 i'r graddau y mae'r cyfarwyddiadau'n gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu ar y cyd.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "asiantaeth briodol" yr un ystyr ag "appropriate agency" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 fel y'u diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.